# Rhybudd Gwybodaeth

## Teithio i Unol Daleithiau America

**Dyddiad:** 11/06/2025

**Beth sy'n digwydd:**

Mae adroddiadau wedi ymddangos yn y cyfryngau yn ddiweddar ynghylch anawsterau y mae rhai teithwyr wedi eu profi wrth geisio teithio i'r Unol Daleithiau ac wrth geisio mynd i mewn i'r wlad. Yn ogystal, yn ddiweddar, cyhoeddodd Adran Wladwriaeth yr Unol Daleithiau na fydd unrhyw apwyntiadau cyfweliad ar gyfer fisa myfyriwr ar gael hyd nes y nodir yn wahanol.

Mae UMAL, yswirwyr y Brifysgol, wedi rhoi'r diweddariadau canlynol i ni:

- Rhybudd Teithio i UDA
- Teithio i UDA - Rhybudd Cais am Fisa Myfyriwr

**Gwybodaeth am deithio:**

Er nad yw'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) wedi cyhoeddi cyngor penodol ynghylch y mater hwn, mae'r adran Gofynion Mynediad ar ei gwefan wedi newid o **"Mae'r awdurdodau yn UDA yn gosod ac yn gorfodi rheolau mynediad"** i **"Dylech gydymffurfio â holl delerau mynediad, fisa a thelerau eraill mynediad".**

Os ydych chi'n bwriadu teithio, mae'n bwysig eich bod chi'n gwirio platfformau Crisis24Horizon a'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn rheolaidd am y newyddion diweddaraf a/neu cofrestrwch er mwyn derbyn rhybuddion.

**Pethau y gallwch chi eu gwneud:**

- Darllenwch y nodiadau atodol gan UMAL, sydd wedi eu hatodi i'r rhybudd hwn.
- Ystyriwch a ydych chi'n dymuno parhau â'ch cynlluniau i deithio i UDA.
- Sicrhewch eich bod chi'n ymwybodol o'r newyddion diweddaraf am y sefyllfa, a chofrestrwch i dderbyn rhybuddion teithio.
- Sicrhewch eich bod chi'n cynnwys cynlluniau wrth gefn yn eich asesiad risg a gofynnwch am ddogfennaeth deithio rhag ofyn y bydd y wlad yn gwrthod caniatáu mynediad neu y byddwch chi'n cael eich alltudio.
    - Dylai cynlluniau wrth gefn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) mynediad at gyllid er mwyn ail-gynllunio teithio, mynediad at ddŵr a bwyd y gall fod ei angen, a mynediad at feddyginiaeth ac unrhyw feddyginiaeth ychwanegol y gall fod ei hangen os bydd y wlad yn gwrthod caniatáu mynediad.
- Lawrlwythwch SafeZone - Bydd SafeZone yn gweithio yn unrhyw le, bydd eich ap yn eich galluogi i alw gwasanaethau brys lleol drwy wasgu un botwm, a bydd hefyd yn darparu eich cyfesurynnau System Leoli Fyd-eang (GPS) er mwyn i chi eu rhannu â'r atebwyr ffôn.
- Am arweiniad pellach, e-bostiwch insurance@abertawe.ac.uk neu HealthandSafety@abertawe.ac.uk


Ni chaiff y ddogfen hon ei rheoli os yw'n cael ei hargraffu neu ei lawrlwytho.